

Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Ymchwilwyr Ôl-raddedig i Addysgu

Cod 17: 2018 Fersiwn 01
Mewn grym: 1 Mai 2018



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Dyddiad	Yn Disodli	Disgrifiad o'r Newid
1 Mai 2018.	Fersiwn 2016.	Diweddariad cyffredinol.

Perchennog y Ddogfen	Cymeradwywyd Gan	Dyddiad y Cymeradwywyd	Amllder Adolygu
Ysgol Ddoethurol.	Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig.	11 Ebrill 2018.	Bob tair blynedd.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Ymchwilwyr Ôl-raddedig i Addysgu



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Mae'r Cod hwn yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau ymchwilwyr ôl-raddedig a'r Brifysgol ynghylch athrawon ôl-raddedig.

Rhagarweiniad

1. Yn y Cod Ymarfer hwn, defnyddir y termau Cynorthwydd Dysgu ac Arddangoswr i ddisgrifio ymchwilwyr ôl-raddedig sy'n ymgymryd â dyletswyddau addysgu. Gall yr ysgolion ddefnyddio termau eraill os ydynt yn rhoi gwell ddisgrifiad o'r gweithgareddau penodol. Er enghraifft, gall y termau gynnwys tiwtoriaid neu diwtoriaid ôl-raddedig. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw dermau ysgol-benodol gyfateb, mewn perthynas â'r cyfrifoldebau disgwylidig a'r cyfraddau talu, i Gynorthwydd Dysgu neu Arddangoswr fel y'u disgrifir yn y Cod Ymarfer hwn.
2. Dylai Cynorthwywyr Dysgu ac Arddangoswyr gael cytundeb cyflogaeth os bydd eu dyletswyddau wedi'u halinio i'r disgrifiadau swydd yn Atodiad 1 ac os bydd y penodiad am nifer lleiafswm gwarantedig o oriau; fel arall, dylent gyflawni'r gweithgareddau addysgu o dan Drefniadau Cyflogi Staff Achlysurol ('Y Ffurflen Las'). Gall Cynorthwywyr Addysgu ac Arddangoswyr hefyd gyflawni gweithgareddau addysgu fel rhan o fodiwlau hyfforddi (Gweler paragraff 7).
3. Nid yw'r Cod hwn yn cyfeirio at Gynorthwywyr Dysgu Graddedig. Mae Cynorthwywyr Dysgu Graddedig yn aelodau o'r staff, wedi'u penodi o dan delerau cytundeb cyflogaeth ac maent yn cofrestru at gyfer rhaglen ôl-raddedig fel ag y bydd y cytundeb yn caniatáu. Diffinnir ymrwymadau dysgu, a gofynion hyfforddiant, Cynorthwywyr Dysgu Graddedig yn eu telerau cyflogaeth.
4. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i wneud y canlynol:
 - Sicrhau bod ymchwilwyr ôl-radd yn cael digon o amser i gwblhau eu hastudiaethau o fewn y terfynau amser a bennwyd.
 - Sicrhau ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r asesu a gyflwynir/a ddarperir gan ymchwilwyr ôl-radd.
 - Sicrhau bod ymchwilwyr ôl-radd yn cael digon o gyfle i ddatblygu eu portffolio o brofiad addysgu.
5. Mae'n rhaid i gyfraniad ymgeiswyr ymchwil ôl-radd at addysgu, fel Cynorthwywyr Addysgu neu Arddangoswyr, fod yn wirfoddol. Yn unig eithriad yw lle bo telerau ysgoloriaeth (neu gyfwerth - gweler paragraff 7) yn mynnu bod ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig yn dysgu neu'n nodi'n benodol na chaniateir iddynt ddysgu.

Hyfforddi a chyfarwyddo

6. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ymchwil ôl-radd gael hyfforddiant priodol (gweler paragraff 8) cyn y gallant ymgymryd â'u dyletswyddau fel Cynorthwywyr Dysgu neu Arddangoswyr. Gyda chytundeb y goruchwyliwr, y disgrifir ei swyddogaeth yn Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig, gall ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig gofrestru ar fodiwlau a gyflwynir gan y Brifysgol, y coleg neu'r ysgol sy'n rhan o gymwysterau dysgu achrededig.

7. O dan delerau ysgoloriaeth neu o dan amodau a osodir gan ysgol pan gaiff ymgeisydd ymchwil ôl-raddedig gynnig lle i astudio, gall fod gofyn i Gynorthwywyr Dysgu ac Arddangoswyr gwblhau modiwlau hyfforddi y bydd eu canlyniadau dysgu yn mynnu cyfrannu at addysgu. Nid oes disgwyl y bydd ymchwilwyr ôl-radd yn cael eu talu am unrhyw addysgu sy'n rhan o'r modiwlau hyfforddi hyn y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.
8. Rhaid i'r aelod staff academiaidd sy'n trefnu gweithgaredd addysgu sicrhau bod Cynorthwywyr Dysgu ac Arddangoswyr wedi cael yr offer priodol i gyflawni eu swyddogaeth. Ar gyfer pob gweithgaredd addysgu, rhaid rhoi'r canlynol i'r Cynorthwywyr Dysgu a'r Arddangoswyr o flaen llaw:
 - Nodau ac amcanion y gweithgaredd, ac os diffinnir hwy, y deilliannau dysgu.
 - Unrhyw ddeunydd cefndir perthnasol y disgwylir i'r myfyrwyr fod wedi ei ddarllen, gan gynnwys adnoddau sydd ar gael yn electronig.
 - Atodlenni ac asesiadau risg ar gyfer dosbarthiadau labordy neu waith maes.
 - Manylion am yr aelodau o'r staff sy'n gallu cynnig cefnogaeth ac arweiniad mewn perthynas â'r gweithgaredd addysgu.
 - Manylion am y gyfradd talu am y gweithgaredd addysgu.
9. Os yw Arddangoswyr neu Gynorthwywyr Dysgu yn rhoi adborth ar waith wedi ei asesu rhaid rhoi cyfarwyddyd digonol iddynt ymlaen llaw. Rhaid i'r trefnydd roi esboniad clir o'r dasg, meini prawf marcio a chynllun marcio, o leiaf. Rhaid i'r gwaith a asesir gael ei wirio fel bo'r gofyn yn ôl y Rheoliadau Rhaglenni a Addysgir.

Tâl

10. Rhaid talu ymchwilwyr ôl-radd am ymgymryd â gweithgareddau addysgu. Ni chaniateir dysgu di-dâl dim ond os yw ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig yn dysgu fel rhan o fodiwlau hyfforddi (gweler paragraff 7).
11. Mae rhai ysgoloriaethau'n cynnwys tâl am addysgu a dim ond am waith sy'n ychwanegol i'r addysgu a ddiffiniwyd fel rhan o'r ysgoloriaeth y dylai ymchwilwyr dderbyn tâl.
12. Mae'r cyfraddau tâl ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu ac Arddangoswyr ar gael o wefan y Swyddfa Gyllid. Rhaid talu Cynorthwywyr Dysgu ar y gyfradd Addysgu Tiwtorial (sy'n cyd-fynd â Gradd 6 ar Raddfeydd Tâl y Brifysgol) a rhaid talu Arddangoswyr ar y gyfradd Dyletswyddau Arddangos (sy'n cyd-fynd â Gradd 5 ar Raddfa Talu'r Brifysgol).
13. Ni ellir defnyddio cyfraddau tâl eraill oni ddiffinnir hynny'n benodol gan gytundeb contractol rhwng yr ymgeisydd ymchwil ôl-radd a'r Brifysgol ac/neu'r Noddwr.

Mathau o weithgareddau addysgu

14. Gwelir mathau o weithgareddau addysgu y gall Cynorthwywyr Addysgu ac Arddangoswyr eu gwneud yn Atodiadau 1A ac 1B. Ni chaiff Arddangoswyr fynd heibio'r terfynau a osodir yn Atodiad 1. Er enghraifft, gallant gyfrannu at fodiwlau ond ni allant gyflwyno modiwl cyfan.

Penodi Cynorthwywyr Addysgu ac Arddangoswyr

15. Rhaid dewis a phenodi Cynorthwywyr Addysgu ac Arddangoswyr yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol. Rhaid bod gweithdrefn deg a thryloyw ar gyfer penodi unigolion a dyrannu dyletswyddau. Rhaid i ofynion penodol y swydd yn nhermau gwybodaeth, sgiliau a hyfforddiant gael eu datgan a rhaid i ysgolion sicrhau bod gan

Gynorthwywyr Dysgu ac Arddangoswyr y rhagofynion angenrheidiol ar gyfer y swydd.

16. Rhaid i ysgolion wneud eu trefniadau eu hunain i sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu cynllunio a'u cytuno â goruchwyliwr yr ymgeisydd ymchwil ôl-raddedig ymhell ymlaen llaw ac y gellir talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch o gyllideb yr ysgol. Ni ddylid derbyn ceisiadau ôl-weithredol i dalu Cynorthwywyr Dysgu neu Arddangoswyr (e.e. cais i dalu am waith dysgu na chafodd ei gymeradwyo ymlaen llaw).

Ymrwymadau dysgu

17. Rhaid i Oruchwyliwr sicrhau nad yw ymrwymadau addysgu ymchwilydd ôl-radd unigol mor drwm fel eu bod yn bygwth rhwystro'r ymgeisydd rhag cwblhau ei astudiaethau. Ni ddylai gweithgareddau addysgu fod yn fwy na 250 awr y flwyddyn ac ni ddylent fod yn fwy na 6 awr mewn unrhyw wythnos unigol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw amser yn gysylltiedig â pharatoi a marcio.
18. Ni ellir mynd hebio'r terfynau a ddiffinnir ym mharagraff 17 oni ddiffinnir terfynau uwch trwy drefniant cytundebol rhwng yr ymchwilydd ôl-radd a'r Brifysgol ac/neu noddwr a lle cymerwyd yr ymrwymiad ychwanegol i ystyriaeth trwy wneud cais am gyfnod cofrestru ychwanegol.
19. Ni chaiff ymchwilwyr ôl-raddedig sy'n astudio yn y DU dan fisa mewnfudo fynd hebio'r oriau gweithio a nodir ar gyfer y math o fisa sydd ganddynt neu ar eu fisa.

Monitro ac adborth

20. Rhaid i drefnydd y modiwl neu'r gweithgaredd roi cefnogaeth ac adborth adeiladol i'r Cynorthwywyr Addysgu neu'r Arddangoswyr fel y gallant elwa o'r profiad a defnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn gweithgareddau i ddod. Gellir hwyluso hyn drwy gynnwys Cynorthwywyr Dysgu ac Arddangoswyr yng nghynllun yr ysgol ar gyfer arsylwi cyfoedion ac adolygu addysgu.
21. Mae'n rhaid i Gynorthwywyr Dysgu ac Arddangoswyr fod yn rhan o brosesau'r ysgol ar gyfer adolygu addysgu a modiwlau gan gynnwys barn myfyrwyr sydd wedi cael eu haddysgu.
22. Dylai Cynorthwywyr Dysgu ac Arddangoswyr sy'n bryderus am unrhyw agwedd ar y dyletswyddau addysgu a ddyrannwyd iddynt, yn y lle cyntaf, geisio trafod a datrys y rhain gyda'u goruchwyliwr. Gall Colegau ac ysgolion ddynodi unigolion i weithredu fel mentoriaid i'r Cynorthwywyr Dysgu a'r Arddangoswyr. Gall y mentor fod yn bwynt cyswllt academaidd unigol y gall yr ymchwilydd ôl-raddedig godi materion gydag ef ac y gallant gael cyngor ganddo, sy'n gymwys i oruchwylio dysgu ôl-raddedig ac sydd mewn sefyllfa bosibl i roi geirada academaidd yn y dyfodol. Pan na ellir datrys materion sy'n codi, rhaid dilyn pryderon drwy'r drefn briodol a gall ymchwilwyr ôl-raddedig gael eu cefnogi gan Undeb y Myfyrwyr neu'r undeb perthnasol ar y campws. Gellir cael cyngor am drefniadau gan Gyfarwyddwr yr Ysgol Ddoethurol.
23. Dylai goruchwyliwr sy'n bryderus am unrhyw agwedd ar y dyletswyddau addysgu a gyflawnir gan ymgeisydd ymchwil ôl-raddedig, yn y lle cyntaf, geisio trafod a datrys y rhain gyda'r ymchwilydd ôl-raddedig. Lle na ellir eu datrys, rhaid dilyn y drefn briodol ar y materion dan sylw.

Atodiad 1 - Proffiliau Swydd**A. Arddangosydd****Pwrpas y swydd**

Mae Arddangoswyr yn gwneud gweithgareddau a oruchwylir yn agos gan staff academaidd ac mae a wnelo'r dyletswyddau a gweithgareddau a ddiffinnir gan ganllawiau neu brotocolau penodol.

Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Cefnogi staff academaidd mewn sesiwn ymarferol/ dosbarth labordy.
- Cyfrannu cyflwyniadau byr fel rhan o ddarlith a roddir gan staff academaidd.
- Cymryd rhan mewn seminarau/tiworialau dan arweiniad staff academaidd.
- Rhoi arweiniad i fyfyrwr neu eraill ar y defnydd o offer ac/neu dechnegau arbenigol.
- Cwblhau project ymchwil dan oruchwyliaeth (y tu allan i gwmpas y pwnc astudio PhD) yn dilyn protocolau a gynhyrchir gan staff academaidd.
- Dyrannu marciau i waith ar sail atebion a baratowyd ymlaen llaw gan y staff academaidd
- Gwneud tasg weinyddol yn yr ysgol lle diffinnir y dasg gan feini prawf/protocolau

B. Cynorthwydd Dysgu**Pwrpas y swydd**

Mae Cynorthwydd Dysgu'n gwneud gweithgareddau dysgu a ddiffinnir gan staff academaidd. Mae'r dyletswyddau'n gysylltiedig â gweithgareddau a ddiffinnir mewn termau eang ac mae'r ymchwilydd ôl-raddedig yn cael rhyddid i ddatblygu a pharatoi ei ddeunyddiau dysgu ei hun.

Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Cynnal sesiwn ymarferol/dosbarth labordy gyda grŵp o fyfyrwr heb gyfraniad uniongyrchol gan staff academaidd
- Arwain seminarau/tiworialau heb gyfraniad uniongyrchol gan staff academaidd.
- Cwblhau project ymchwil dan oruchwyliaeth (y tu allan i gwmpas y pwnc astudio PhD) lle mae'r amcanion wedi eu diffinio ond lle mae'n rhaid datblygu, profi a chymhwyso'r dulliau gweithio.
- Rhoi cyfarwyddyd i fyfyrwr neu eraill ar y defnydd o offer ac/neu dechnegau arbenigol a helpu myfyrwr i lunio cwestiynau ymchwil a chasglu/dadansoddi data.
- Cyflwyno cyfres o ddarlithoedd a baratowyd gan aelod o'r staff academaidd, fel rhan o fodiwl neu gwrs byr a drefnwyd gan aelod o'r staff academaidd
- Cyflwyno un ddarlith neu nifer fach o ddarlithoedd fel rhan o fodiwl neu gwrs byr.
- Cyflawni tasg weinyddol yn yr ysgol sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu, lle mae amcanion y dasg wedi eu diffinio ond lle mae'n rhaid datblygu ffyrdd o gwblhau'r dasg. Dylai'r tasgau a wneir fod yn gymesur â'r raddfa.